

Pecyn Dogfen Cyhoeddus



At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 13 Tachwedd 2024

Rhif Union: 01824712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 19 TACHWEDD 2024** am **10.00** am yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO.**

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYG

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 7 - 24)

Derbyn -

(a) cofnodion cyfarfod Arbennig y Cabinet a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2024 (copi'n amgaeedig), a

(b) chofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2024 (copi'n amgaeedig).

5 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM BERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL: EBRILL I FEDI 2024 (Tudalennau 25 - 106)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi'n amgaeedig) yn cyflwyno'r Adroddiad Diweddariad Perfformiad ar gyfer y cyfnod Ebrill i Fedi 2024 cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad.

6 ADRODDIAD CYLLID (Tudalennau 107 - 122)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm), ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

7 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET (Tudalennau 123 - 130)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet sydd ynghlwm a nodi'r cynnwys.

RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth drafod y materion canlynol oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraffau 12, 13 ac 14 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf, ei datgelu.

8 GWAREDU CALEDFRYN, DINBYCH (Tudalennau 131 - 162)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi'n amgaeedig) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i waredu Caledfryn yn unol ag argymhellion yr adroddiad.

9 GRANT CYMORTH TAI - PROSIECT CADW FY NGHARTREF - AILGARTREFU CYFLYM (Tudalennau 163 - 216)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau (copi'n amgaeedig) yn cynnwys canlyniad yr ymarfer tendro ar gyfer gwasanaeth cefnogaeth yn ôl yr angen newydd a cheisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer dyfarnu'r contract i'r darparwr penodol yn unol ag argymhellion yr adroddiad.

MEMBERSHIP

Y Cynghorwyr

Gwyneth Ellis
Elen Heaton
Alan James
Diane King
Julie Matthews

Jason McLellan
Barry Mellor
Rhys Thomas
Emrys Wynne

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

CABINET

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, a thrwy gynhadledd fideo ddydd Mawrth, 1 Hydref 2024, am 2.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Jason McLellan, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd; Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Diane King, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd; Alan James, Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio; Julie Matthews, Dirprwy Arweinydd a Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol; Barry Mellor, Aelod Arweiniol Yr Amgylchedd a Chludiant; Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau, ac Emrys Wynne, Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth

Arsylwyr: Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Karen Edwards, Pauline Edwards, James Elson, Justine Evans, Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Hogg, Carol Holliday, Hugh Irving, Brian Jones, Terry Mendies, Merfyn Parry, Will Price, Andrea Tomlin, Cheryl Williams, a Huw Williams

HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (GB); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg (NS); Llywodraethu a Busnes/Swyddog Monitro (GW), a'r Amgylchedd a'r Economi (TW); Penaethiaid Gwasanaeth: Cyllid ac Archwilio (LT) a Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol: Pobl (CR), a Gweinyddwyr Pwyllgorau (KEJ a RTJ [Gwe ddarlledu])

CROESO

Croesawodd a llongyfarchodd yr Arweinydd y Cynghorydd Will Price, Cynghorydd Sir oedd newydd ei ethol ac a oedd yn mynychu ei gyfarfod cyntaf o'r Cabinet.

1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol, Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

3 ADNODDAU YCHWANEGOL SYDD EU HANGEN AR GYFER Y GWASANAETH AILGYLCHU TROLIBOCS WYTHNOSOL NEWYDD A SWYDDOGAETHAU CASGLU GWASTRAFF CYSYLLTIEDIG

Cyflwynodd y Cynghorydd Barry Mellor yr adroddiad oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer adnoddau ychwanegol, er mwyn sicrhau y gallai'r gwasanaeth

ailgylchu trolibocs wythnosol newydd a swyddogaethau casglu gwastraff cysylltiedig weithredu fel y rhagwelwyd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mellor at weithrediad y gwasanaeth gwastraff/ailgylchu newydd ar 3 Mehefin 2024 nad oedd wedi gweithio fel y disgwyl, ac roedd o a'r Arweinydd wedi ymddiheuro'n gyhoeddus i breswylwyr, ac wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r problemau er mwyn sicrhau bod y system newydd yn gweithredu'n effeithiol. Byddai adolygiad craffu dan arweiniad aelodau am gyflwyno'r system newydd yn cael ei gynnal er mwyn deall beth aeth o'i le, a pha wersi y gellid eu dysgu ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, roedd adroddiad heddiw yn ymwneud yn benodol â mynd i'r afael â'r problemau oedd wedi dod i'r amlwg ac i sicrhau bod y system newydd yn gweithio.

Ers cyflwyno'r gwasanaeth newydd, nid oedd nifer o'r rowndiau ailgylchu newydd wedi llwyddo i gwblhau eu casgliadau dyddiol gan arwain at niferoedd annerbyniol o gasgliadau'n cael eu methu/gwastraff ddim yn cael eu casglu, ac roedd adnoddau dros dro ychwanegol wedi cael eu dyrannu'n sydyn i fynd i'r afael â'r broblem. Roedd yna gost ar gyfer yr adnoddau ychwanegol dros dro, ond fe fydd cyfanswm y gost ychwanegol ar gyfer 2024/25 yn cael ei osod yn erbyn taliad untro yn sgil ail ariannu Partneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru, gan olygu nad oes yna bwysau cyllidebol yn y flwyddyn ariannol bresennol ar gyfer y gwasanaeth. Serch hynny, mae angen datrysiad parhaol i alluogi'r gwasanaeth i fod yn llwyddiannus a chynaliadwy yn yr hirdymor fel y nodwyd yn yr adroddiad. Yn gryno, nid oedd yna ddigon o rowndiau ailgylchu wedi'u cynllunio wrth ddylunio'r gwasanaeth, ac roedd angen adnoddau ychwanegol i ddarparu datrysiad parhaol a gwasanaeth cynaliadwy.

Fe argymhellodd y Cynghorydd Mellor y cynnig fel y nodwyd yn yr adroddiad i ddyrannu adnoddau ychwanegol i alluogi'r gwasanaeth i weithredu fel y rhagwelwyd. Byddai methiant i wneud hynny yn arwain naill ai at barhau i glustnodi adnoddau ychwanegol dros dro nad oedd yn effeithlon ac yn fwy drud na'r datrysiad parhaol arfaethedig, neu gael gwared ar yr adnoddau ychwanegol dros dro a fyddai eto'n arwain at niferoedd uchel o gasgliadau'n cael eu methu - nid oedd modd cefnogi yr un dewis na'r llall.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd a'r Economi fwy o fanylion i'r adroddiad. Roedd y model ar gyfer y gwasanaeth ailgylchu newydd wedi cael ei seilio ar nifer o ragdybiaethau a gafodd eu profi'n anghywir. Y prif broblem oedd bod rhai o'r rowndiau ailgylchu dyddiol wedi cael eu dylunio gyda gormod o gartrefi ac nid oeddynt yn cael eu cwblhau. Byddai angen rowndiau ailgylchu ychwanegol i ddarparu'r gwasanaeth newydd yn llwyddiannus ac yn gynaliadwy. Roedd y model gwreiddiol wedi cael ei seilio ar 20 rownd ailgylchu fesul diwrnod ac roedd y nifer o rowndiau ychwanegol oedd eu hangen yn amrywio o 6 i 8 rownd, yn dibynnu ar ddiwrnod yr wythnos. Roedd hyn yn golygu bod angen prynu 8 cerbyd ychwanegol ar gost cyfalaf o tua £1.3m (wedi'i ariannu trwy fenthycia darbodus) a gyrwyr a llwythwyr ychwanegol i weithredu'r cerbydau. Y costau refeniw oedd yn gysylltiedig â'r rowndiau ychwanegol oedd £1.067m, oedd yn cynnwys costau refeniw ar gyfer benthyca darbodus y cerbydau ychwanegol. Byddai cais ffurfiol yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru am gyllid cyfalaf ychwanegol i gynorthwyo â'r gost o brynu'r cerbydau. Bydd angen ystyried y

gyllideb ychwanegol sydd ei hangen (£1.067m) o fis Ebrill 2025 yn rhan o broses gosod y gyllideb ar gyfer 2025/26.

Yn olaf, cafodd y Cabinet wybod petai nhw'n cymeradwyo'r cynnig, gallai gwaith ddechrau ar gynllunio i weithredu'r rowndiau ailgylchu diwygiedig, a'r gobaith yw y byddent ar waith o fewn wythnosau. Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn hyderus y byddai'r rowndiau newydd yn darparu datrysiad parhaol ac yn galluogi'r gwasanaeth i fod yn fwy cynaliadwy.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Aelod Arweiniol a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol am roi eglurhad am y sefyllfa. Fe ystyriodd y Cabinet yr adroddiad yn ofalus ac fe wnaethant edrych eto ar werth y gwasanaeth newydd o ran y manteision amgylcheddol, yr effaith gadarnhaol ar greu swyddi yn y gwasanaeth ac o adeiladu depo gwastraff newydd yn cynnwys cadw ac ehangu gweithrediadau busnes lleol a swyddi lleol, ynghyd â'r heriau ariannol sy'n gwaethygu o dan y system flaenorol. Wrth ystyried y cynnig a'r ffordd ymlaen, yn y lle cyntaf, gofynnodd y Cabinet am dystiolaeth i ddarparu sicrwydd bod yr adnoddau ychwanegol sydd eu hangen fel yr amlinellir yn yr adroddiad yn ddigonol i roi sylfaen gynaliadwy i'r system newydd. Pwysleisiodd y Cabinet nad oedd arnynt eisiau dychwelyd i'r broblem o ran adnoddau eto. Gofynnodd y Cabinet am sicrwydd pellach a gofynnodd gwestiynau am agweddau gwahanol o'r adroddiad, yn enwedig o ran yr Asesiad o'r Effaith ar Les ac effaith ar staff a phreswylwyr (gan gynnwys cefnogaeth bwrpasol) goblygiadau ariannol, manteision amgylcheddol ac amserlenni a disgwyliadau oedd yn gysylltiedig â'r model diwygiedig.

Fe ymatebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: yr Amgylchedd a'r Economi i'r cwestiynau a godwyd gan y Cabinet fel a ganlyn -

- rhoddodd sicrwydd am y gwaith caled oedd wedi cael ei wneud i edrych eto ar y model, gan ystyried y profiad o weithredu'r system yn ymarferol gyda thystiolaeth go iawn, yn hytrach na rhagdybiaethau damcaniaethol oedd wedi cael eu defnyddio yn y cyfnod cynllunio, ac roedd yna hyder y byddai'r cynnig yn gweithio ac y byddai'n cael ei reoli'n llwyddiannus tra hefyd yn derbyn fod yna risg gydag unrhyw newid
- fe fu yna nifer o newidiadau rheoli o fewn y gwasanaeth gwastraff ers dechrau'r prosiect yn 2018 ac roedd y gwaith diweddaraf o ail ddylunio'r rowndiau wedi cael eu gwneud gan y gwasanaeth gyda chyfraniad gan WRAP Cymru (Rhaglen Gweithredu ar Wastraff ac Adnoddau), ac yn fwy diweddar roeddynt hefyd wedi bod yn rhoi cefnogaeth rheoli gweithredol, ac fe gawsant gyfranogiad gan awdurdodau lleol eraill gyda rheolwyr gweithredol yn edrych ar fanylder y rowndiau, er roedd profiad a'r gwersi oedd wedi'u dysgu ers ei gyflwyno wedi bod yn hollbwysig wrth ffurfio'r rowndiau a ail ddyluniwyd
- roedd yna ystod o ddewisiadau a datrysiadau unigryw i breswylwyr allai ganfod y ffordd newydd o gyflwyno gwastraff yn her, ac unwaith y byddai'r gwasanaeth yn gweithredu fel y rhagwelwyd, fe fyddai gan y gwasanaeth fwy o gapasiti i ddelio â'r materion pwysig yma a sicrhau datrysiad gwahanol i weddu amgylchiadau unigol - byddai preswylwyr angen cofnodi'r materion yma drwy Wasanaethau i Gwsmeriaid.
- byddai'r newidiadau arfaethedig yn y cefndir, ac i breswylwyr yr unig newid fyddai i'r rheini sy'n derbyn gwasanaeth anghyson a fyddai'n dechrau cael

gwasanaeth cyson, a byddai eu hailgylchu yn cael ei gasglu ar y diwrnod casglu - ni fyddai yna newidiadau i'r diwrnod casglu ailgylchu ar gyfer unrhyw breswlydd

- cafodd y model newydd ei gyflwyno er mwyn cyrraedd targed ailgylchu statudol o 70% gan Lywodraeth Cymru, a thra ei bod rhy gynnar i gadarnhau a fyddai hwnnw'n cael ei gyrraedd, roedd y dangosyddion cychwynol yn addawol. Mae'n ymddangos bod data dros bedwar mis cyntaf y system newydd am faint a gwerth yr ailgylchu a gasglwyd yn gyson gyda'r amcanestyniadau, ac roedd yn rhoi hyder yn y model newydd gan alluogi'r Cyngor i gyrraedd y targed o 70%. Serch hynny, dylid nodi bod y Cyngor yn dal i weithredu'r hen fodel casglu yn ystod Chwarter 1 y flwyddyn ariannol bresennol, felly ni fyddai'r effaith llawn o ran cyfraddau ailgylchu blynyddol yn cael eu gweld tan 2025/26. Fe all Cynghorau gael dirwy am beidio â chyrraedd y targed ailgylchu statudol.
- cyn newid drosodd i'r system newydd roedd yna bwysau cyllidebol yn y gwasanaeth gwastraff; yn 2023/24 roedd gan y gwasanaeth gwastraff gyllideb o £7.2m a gwir gost y gwasanaeth oedd £8m gan olygu £800,000 o orwariant
- Roedd y Cyngor wedi cael incwm ar gyfer yr ailgylchu cymysg pan gyflwynwyd y system honno gyntaf, ond erbyn 2018/19 y gost i'r Cyngor i dalu am drin ailgylchu cymysg oedd £315,000, ac roedd hyn wedi cynyddu i £1.1m erbyn 2023/24 a byddai wedi parhau i gynyddu; roedd y risg honno wedi cael ei dileu drwy gyflwyno'r system newydd ac roedd y Cyngor bellach yn cael incwm am yr ailgylchu wedi'u didoli - a dros amser, gyda mwy o addysg, y gobaith yw cynyddu nifer ac ansawdd y deunydd ailgylchu sy'n cael ei ddioli i wella'r elfen gyllidebol.
- yn nhri mis cyntaf y system newydd gwerthodd y Cyngor 1,107 tonnall o ddeunydd ailgylchu am £250,000 ac er nad oedd yn swm sefydlog o ystyried amrywiadau yn y farchnad, yr amcanestyniadau oedd tua £1m y flwyddyn ac felly roedd y swm yn gyson â'r amcanestyniadau hynny.
- petai'r Cabinet yn cymeradwyo'r cynnig, gallai cais ffurfiol gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru am gyfraniad cyfalaf i helpu â chost y cerbydau ychwanegol
- roedd cofrestriadau ar gyfer gwasanaeth cynnyrch hylendid amsugol (AHP) wedi agor yn ddiweddar ar roedd ceisiadau'n cael eu derbyn ar hyn o bryd ac yn cael eu hasesu, ac o ran casgliadau â chymorth, roedd llythyrau wedi cael eu hanfon at aelwydydd sydd wedi derbyn y gwasanaeth ers mwy na 3 blynedd i ofyn a oeddynt dal angen y gwasanaeth o ystyried yr adnodd ychwanegol i'w weithredu, unwaith y byddai'r data wedi cael ei gasglu ar y ddwy elfen yna, fe fyddai'n cael ei rannu gydag aelodau
- mae pob gwasanaeth gwastraff wedi methu casgliadau, cyn cyflwyno'r gwasanaeth newydd ar gyfartaledd roedd gan Sir Ddinbych 120 o gasgliadau'n cael eu methu bob wythnos ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ionawr at ddechrau mis Mehefin - roedd y ffigurau yna'n gymharol hawdd i'w rheoli a delio â nhw gan y gwasanaeth, a'r nod oedd cyrraedd sefyllfa debyg pan fo nifer y casgliadau oedd yn cael eu methu yn gallu cael eu rheoli a'u trin gan y gwasanaeth fel busnes arferol.
- roedd rhai agweddau o'r swydd megis codi a symud yn gorfforol, gofynion a goblygiadau corfforol yn achosi rhwystr i rai gweithwyr, a chyfeiriwyd at gyfleoedd datblygu staff oedd yn cynnwys cynllunio ar gyfer olyniaeth a datblygu sgiliau gweithwyr presennol, ac fe nodwyd fod yna gyfleoedd hefyd yn y gwasanaeth ehangach ac ar draws y Cyngor cyfan.

Ar y pwynt hwn, agorodd yr Arweinydd y drafodaeth i aelodau nad oeddent yn aelodau o'r Cabinet.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynwyd, roedd yna drafodaethau a chyfeiriadau at elfennau ehangach oedd yn ymwneud â'r gwasanaeth gwastraff yn ehangach a nifer o benderfyniadau a wnaed gan y Cabinet blaenorol ers dechrau'r prosiect yn 2018 [a phrosesau amrywiol a champau gweithredu cysylltiedig a gymerwyd cyn gweithredu'r gwasanaeth newydd.] Serch hynny, nid oeddynt yn faterion ar gyfer cyfarfod heddiw (oedd yn canolbwyntio ar yr adnoddau ychwanegol oedd eu hangen er mwyn sicrhau gwasanaeth ailgylchu cynaliadwy wrth symud ymlaen) a byddent yn cael eu hystyried yn rhan o adolygiad craffu dan arweiniad aelodau i gyflwyno'r gwasanaeth newydd. Cafodd aelodau hefyd eu hannog i ddefnyddio'r broses graffu i graffu ymhellach ar elfennau penodol oedd yn ymwneud â'r gwasanaeth nad oedd yn cael ei gynnwys yng nghylch gwaith yr adolygiad craffu dan arweiniad yr aelodau i'r broses o gyflwyno'r gwasanaeth.

Fe ailadroddodd nifer o aelodau nad ydynt yn rhan o'r Cabinet eu rhwystredigaeth a phryderon parhaol am weithrediad y gwasanaeth newydd a'r effaith ar breswylwyr a staff. Mynegwyd pryderon am ddiffyg manylder, metrig, sail dystiolaeth ac amserlen ar gyfer y cynnig, a thynnwyd sylw at yr angen am gynllun busnes wedi'i gostio'n llawn gydag amserlenni cyn ymrwymo arian ychwanegol, ac roedd yna bryderon pellach am ddibyniaeth ar ragdybiaethau. O ystyried y pryderon hynny am ddiwydrwydd dyladwy, nid oedd gan rai aelodau hyder y byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â'r problemau yn y gwasanaeth.

Atebodd yr Arweinydd, Aelod Arweiniol a'r swyddogion y cwestiynau a phryderon fel a ganlyn –

- taliad blynyddol y Cyngor i Barc Adfer (yn rhan o Bartneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru) oedd £2.1m
- ni fyddai'r targed statudol o 70% wedi cael ei gyrraedd o dan y system 'bin glas' blaenorol, gyda'r tebygolrwydd o ddirwyon sylweddol am fethu targedau a chost gynyddol am gael gwared ar ailgylchu cymysg gan arwain at bwysau anferth ar y gyllideb
- anghytuno nad oedd yna gynllun manwl i weithredu'r gwasanaeth newydd ar sail gynaliadwy wrth symud ymlaen, ac roedd cynnig ar sylfaen dystiolaeth wedi cael ei gyflwyno
- nid oedd modd rhoi dyddiad penodol o ran pryd fyddai'r gwasanaeth newydd yn gweithredu fel 'busnes arferol', ond petai'r Cabinet yn cymeradwyo'r cynigion, fe allai'r rowndiau newydd gael eu cyflwyno o fewn wythnosau, ac unwaith y byddai'r rowndiau newydd wedi cael eu cyflwyno, roedd yna hyder y byddai'r gwasanaeth yn symud i sefyllfa gynaliadwy o fewn wythnosau
- cytunwyd fod cysondeb a bod yn gyfarwydd â'r rowndiau ailgylchu yn allweddol a byddai'r cynnig yn helpu i symud i sefyllfa o beidio â bod yn ddibynnol ar staff asiantaeth
- fe nodwyd yr awgrym am ad-daliad cynhwysfawr i gwsmeriaid gwastraff gwyrdd a masnachol fel arwydd o ewyllys da, ond roedd yn fater a fyddai'n cael ei ystyried yn y dyfodol
- roedd yr Arweinydd wedi cydnabod y pwysau ar bob Aelod yn gyson yn sgil cyflwyno'r system, a diolchodd iddynt i gyd am ddelio ag o

- petai'r gyllideb ychwanegol yn cael ei chymeradwyo, roedd hi'n bwysig bod y gwaith i weithredu'r llwybrau casglu gwastraff diwygiedig yn dechrau ar unwaith i roi'r gwasanaeth ar sylfaen gynaliadwy a lleihau lefelau presennol o wariant; felly gofynnwyd i'r Cabinet gadarnhau bod y penderfyniad yn cael ei weithredu ar unwaith
- roedd y cynnig wedi cael ei ystyried yng Ngweithdy'r Cyngor, yn y Cabinet arbennig yma, a byddai hefyd yn cael ei ystyried gan Bwyllgor Craffu Cymunedau ar 24 Hydref; gallai pwyllgorau craffu wneud argymhellion ffurfiol i'r Cabinet a oedd yn gorfod ystyried yr argymhellion hynny
- nid oedd y £500,000 gwreiddiol a dybiwyd o ostyngiad ym mhwysau'r gyllideb yn mynd i gael ei wireddu o ystyried yr angen i gynyddu nifer y rowndiau ailgylchu
- roedd pob gwasanaeth newydd wedi'i seilio ar ragdybiaethau gan nad oeddynt yn bodoli nes bod y gwasanaeth yn cael ei gyflwyno, ac felly roeddynt yn ddamcaniaethol tan y pwynt y cafodd y gwasanaeth ei weithredu - ar ôl pedwar mis o brofiad a thystiolaeth o'i gyflwyno, roedd hi'n amlwg bod y nifer o rowndiau ar gyfer y gwasanaeth wedi cael eu tan gyfrifo byddai'r cynnig yn unioni'r sefyllfa drwy gynyddu nifer o rowndiau
- fe ailadroddwyd arwyddion cynnar y byddai'r targed ailgylchu statudol o 70% yn cael ei gyrraedd o dan y system newydd, ond roedd angen rhagor o dystiolaeth; roedd hi'n amlwg na fyddai'r targed o 70% wedi cael ei gyrraedd o dan y system flaenorol
- roeddynt wedi cysylltu â Llywodraeth Cymru am gefnogaeth ariannol ychwanegol sawl gwaith wrth i'r prosiect fynd rhagddo ac roeddynt wedi ymateb yn gadarnhaol gyda chyfraniad o tua £12m; byddai cais pellach yn cael ei wneud petai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, ond nid oedd modd gwybod a fyddent yn cymeradwyo'r cyllid
- roedd yna drafodaeth am yr effeithiau ar staff/morâl staff yn y gwasanaeth a'r Cyngor yn ehangach, a rhoddwyd sicrwydd o ran y ddarpariaeth gefnogaeth
- cydnabuwyd fod cyflwyno'r gwasanaeth wedi bod yn amser heriol i bawb, yn enwedig i breswylwyr, ac roedd aelodau a swyddogion wedi gweithio'n galed i unioni'r diffygion
- roedd yr adolygiad craffu dan arweiniad aelodau i mewn i gyflwyno'r gwasanaeth yn cael ei groesawu, fel yr oedd cynnwys y cyhoedd yn rhan o'r broses honno
- cydnabuwyd yr effeithiau dilynol ar wasanaethau eraill, fel y manylir yn Atodiad 2 yr adroddiad, o ystyried bod adnoddau wedi cael eu dargyfeirio i fynd i'r afael â'r problemau yn y gwasanaeth ailgylchu, a byddai'r cynnig yn galluogi i adnoddau rheoli ganolbwyntio ar elfennau eraill y gwasanaeth gwastraff
- fe ailadroddwyd ei fod yn faes gwasanaeth cymhleth gyda nifer o risgiau ariannol. Byddai costau ac incwm yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn ddibynnol ar rymoedd y farchnad ac elfennau amrywiol eraill. Felly, roedd angen monitro'r gyllideb yn barhaus
- y bwriad yn y flwyddyn newydd yw cynnal Gweithdy'r Cyngor er mwyn egluro gwaith y depo ailgylchu er mwyn rhoi dealltwriaeth iawn o'r broses honno
- gan ymateb i awgrym fod aelodau yn cael gweld y llwybrau arfaethedig ymlaen llaw o ystyried eu gwybodaeth o'r ardal leol, cadarnhaodd swyddogion y byddent yn ystyried rhannu'r wybodaeth honno gan nodi bod rhai rowndiau yn croesi sawl ardal ward

- Roedd WRAP wedi bod yn rhan o'r broses ac ni fu yna ffraeo yn y gwasanaeth mewn cysylltiad â'r cynnig, ac roedd pawb yn fodlon â'r rowndiau newydd arfaethedig
- roedd y llwybrau newydd arfaethedig wedi cael eu seilio ar ddata a thystiolaeth gwirioneddol o weithredu'r gwasanaeth dros y pedwar mis diwethaf, felly roedd yna hyder y byddai'r model newydd yn gweithio. Y bwriad oedd rhoi diweddariadau cynnydd i bob aelod ar ddiwedd bob dydd ar ôl gweithredu'r rowndiau ychwanegol
- roedd gan bob prosiect gofrestr risg, roedd gan bob gwasanaeth gofrestr risg ac roedd yna hefyd Gofrestr Risg Gorfforaethol a oedd yn cael ei hadolygu bob chwe mis a fyddai'n cynnwys y gwersi a ddysgwyd; byddai'r adolygiad craffu dan arweiniad aelodau yn darparu mwy o ddysgu manwl, ond gellir hefyd ystyried a ddylai'r Gofrestr Risg Gorfforaethol gynnwys risg penodol am brosiectau mawr ddim yn cyflawni'r canlyniadau disgwylidig
- fe eglurwyd y cyfeiriad at y 31 rownd y dydd ar hyn o bryd, a'r sefyllfa dros dro pan roddwyd cynlluniau ar waith ar fyr rybudd i fynd i'r afael â'r nifer annerbyniol o gasgliadau a fethwyd. Roedd y cynnig ar gyfer 26-28 rownd y dydd wedi cael ei seilio ar lwybrau diffiniedig a chynllunio manwl ar gyfer effeithlonrwydd i symud i sefyllfa lle'r oedd llai o adnoddau'n cael eu defnyddio na sy'n digwydd ar hyn o bryd, ond a fyddai'n arwain at system well na'r datrysiad dros dro sy'n weithredol ar hyn o bryd
- roedd y cynnig yn ymwneud yn benodol ag adnoddau ar gyfer y gwasanaeth ailgylchu gan nad oes digon o rowndiau ailgylchu ar hyn o bryd i ddarparu gwasanaeth cyson i bob aelwyd yn y Sir; roedd yna ddigon o adnoddau i ddarparu gwasanaethau eraill i breswylwyr yn cynnwys gweddilliol, gwastraff gwyrdd ac AHP, a byddai'r cynnig yn rhyddhau adnoddau i ganolbwyntio ar yr elfennau hynny yn y gwasanaeth
- byddai parhau â'r datrysiadau dros dro wrth symud ymlaen yn arwain at ddefnydd aneffeithlon o adnoddau, rhagor o gostau cynyddol, a chasgliadau anghyson parhaus i rai preswylwyr, ac roedd yna hyder y byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â'r diffygion yn y system bresennol a sicrhau gwasanaeth cynaliadwy wrth symud ymlaen.

Diolchodd yr Arweinydd i bob Aelod am eu cyfraniadau i drafodaeth faith a manwl a oedd wedi rhoi cyfle i bob Aelod leisio eu pryderon, gofyn cwestiynau, herio'r cynnig, a chyflwyno argymhellion.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn –

- cymeradwyo £1.299m ychwanegol mewn gwariant cyfalaf er mwyn caffael cerbydau ailgylchu ychwanegol, wedi'i ariannu drwy fenthycu darbodus;*
- cymeradwyo £1.067m ychwanegol o gostau referniw er mwyn sicrhau y gall y newid gwasanaeth ddarparu fel y cynlluniwyd ar sylfaen gynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys y costau referniw ar gyfer benthyca darbodus ar gyfer y cerbydau y cyfeirir atynt yn 3.1 yr adroddiad;*
- cytuno bod y penderfyniad yn cael ei weithredu ar unwaith heb gael ei alw i mewn, yn unol ag adran 7.25 yng Nghyfansoddiad y Cyngor, a*

(d) *cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad A yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

Daeth y cyfarfod i ben am 4.20pm.

CABINET

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, a thrwy gynhadledd fideo ddydd Mawrth, 22 Hydref 2024, am 10.00am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Jason McLellan, yr Arweinydd ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd; Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol; Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Diane King, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd; Alan James, Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio; Julie Matthews, y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol; Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant; Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau; ac Emrys Wynne, Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth

Arsylwyr: Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Chris Evans, Bobby Feeley, ac Andrea Tomlin

HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (GB); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg (NS), Llywodraethu a Busnes / Swyddog Monitro (GW), a'r Amgylchedd a'r Economi (TW); Penaethiaid Gwasanaeth: Cyllid ac Archwilio (LT) a Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau (HVE); Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (GO); Rheolwr Asedau Cyfleusterau ac Asedau (DR); Rheolwr Asedau (BW); Prif Reolwr Refeniw, Budd-daliadau a Chontractau (PB); Rheolwr Darpariaeth Gwasanaeth - Refeniw a Budd-daliadau (LG); Partneriaid Busnes TGCh (DDB a ML), a Gweinyddwyr Pwyllgorau (KEJ ac ED [Gweddarlledu])

1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o gysylltiad.

3 MATERION BRYD

Ni chodwyd unrhyw faterion bryd.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 24 Medi 2024.

PENDERFYNWYD derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Medi 2024 a chadarnhau eu bod yn gywir.

5 DARPARIAETHAU CODI FFI OEDD AC AWDURDOD DIRPRWYEDIG - CYNLLUN TRWYDDEDU GORFODOL AR GYFER TRINIAETHAU ARBENNIG

Cyflwynodd y Cynghorydd Alan James adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i fabwysiadu'r strwythur ffioedd a gytunwyd yn genedlaethol ar gyfer y Cynllun Trwyddedu Gorfodol Arbennig newydd a dirprwyo pwerau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 i Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad.

Rhodddwyd cefndir i'r fframwaith cyfreithiol oedd â'r nod o wella a chynnal safonau atal a rheoli haint yn y diwydiant triniaethau arbennig a sicrhau iechyd a diogelwch cleientiaid ac ymarferwyr. Roedd strwythur ffioedd ar gyfer y cynllun newydd wedi cael ei gytuno'n genedlaethol ac roedd wedi'i gyfrifo i sicrhau cysondeb yn y costau i fusnesau ac adfer costau i awdurdodau lleol. Byddai'r ffioedd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Roedd manylion y gweithgareddau oedd yn cael eu cynnwys yn y cynllun, y strwythur ffioedd a gytunwyd yn genedlaethol a'r swyddogaethau arfaethedig i'w dirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth ynghlwm i'r adroddiad.

Gofynnodd y Cabinet nifer o gwestiynau, yn enwedig o ran costau a gallu'r Cyngor i wneud y dyletswyddau ychwanegol a sicrhau cydymffurfiaeth, ynghyd â materion yn codi o'r Asesiad o Effaith ar Les i leihau'r effaith ar fusnesau.

Ymatebodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd i gwestiynau fel a ganlyn:

- ni fyddai staff ychwanegol yn cael eu cyflogi i wneud y gwaith, fyddai'n cael ei rannu rhwng y timau trwyddedu a gwarchod y cyhoedd
- byddai rhywfaint o gostau sefydlu cychwynnol a byddai adolygiad yn cael ei gynnal ar ôl blwyddyn ar yr amser a dreuliodd yn ymgymryd â'r cyfrifoldebau newydd (sy'n cael ei amcangyfrif ar hyn o bryd) i sicrhau bod costau'n cael eu hadfer, ynghyd ag adolygiadau pellach bob tair blynedd
- byddai'r eiddo/ymarferwyr hynny sydd wedi cofrestru ar hyn o bryd yn cael eu trosglwyddo i'r cynllun newydd a byddai cyswllt yn cael ei wneud gydag eraill fyddai angen trwydded efallai; roedd gwaith hefyd ar y gweill i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd am y cynllun newydd a byddai pob busnes yn cael archwiliad pellach o fewn cyfnod y drwydded o dair blynedd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau newydd
- rhodddwyd mwy o fanylion am effaith bosibl y ffioedd newydd ar fusnesau, yn enwedig y rhai ble roedd elfen triniaethau arbennig eu busnes yn fychan ac felly nad oeddent o bosibl yn hyfyw yn ariannol o'r herwydd
- roedd busnesau wedi cymryd rhan yn ystod yr ymgynghoriad ffurfiol gan Lywodraeth Cymru wrth ddrafftio'r rheoliadau newydd ac roedd y Cyngor wedi annog busnesau'n weithredol i adrodd yn ôl fel rhan o'r broses honno.

Diolchodd yr Aelod Arweiniol i'r swyddogion am eu gwaith caled a thynnodd sylw at bwysigrwydd y ddeddfwriaeth newydd o ran iechyd cyhoeddus a gwarchod y cyhoedd.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn –

- (a) *mabwysiadu'r strwythur ffioedd a gytunwyd yn genedlaethol ar gyfer y Cynllun Trwyddedu Gorfodol Triniaethau Arbennig newydd fel nodir yn Nhabl 1 Atodiad 2;*
- (b) *dirprwyo'r swyddogaethau o dan y Rheoliadau newydd i'r Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad fel y nodir yn Atodiad 3;*
- (c) *awdurdodi Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad i ddiwygio'r ffioedd a'r taliadau yn unol â'r cynllun statudol, fel bo'n briodol, o hyn ymlaen, a*
- (b) *cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 4 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

6 STRATEGAETH RHEOLI ASED AU 2024 – 2029

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis y Strategaeth Rheoli Asedau 2024 – 2029 sydd wedi'i adolygu a'i ddiweddarau, ar gyfer ei fabwysiadu. Roedd y Strategaeth Rheoli Asedau presennol wedi'i fabwysiadu gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2017 ac roedd yn hen bryd ei adolygu.

Nod y Strategaeth Rheoli Asedau newydd yw sicrhau bod y cynlluniau asedau a'r deilliannau a geisir yn cyd-fynd â Themâu Strategol y Cyngor fel yr amlinellir yn y Cynllun Corfforaethol i sicrhau bod ein hasedau eiddo yn chwarae rhan allweddol wrth gyflawni'r blaenoriaethau hyn. *Tynnwyd sylw at yr egwyddor sylfaenol ar gyfer y Strategaeth newydd fel a ganlyn -*

“Byddwn yn darparu'r asedau cywir, yn y lle cywir, ac yn y cyflwr cywir i fodloni anghenion darparu gwasanaeth cyfredol ac yn y dyfodol, gan ystyried pwy sydd orau i fod yn berchen a gweithredu bob ased a chyfleoedd ar gyfer cydweithio.”

Mae pedair blaenoriaeth wedi'u dynodi yn y Strategaeth newydd i gyd-fynd â'r Cynllun Corfforaethol a chynhaliwyd ymgynghoriad trylwyr ar lefel swyddogion ac aelodau. Mae canlyniadau'r broses honno yn yr adroddiad. [Er cywirdeb, roedd y Strategaeth wedi cael ei adolygu gan y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ar 12 Medi ac nid ar 12 Mai fel y nodwyd yn yr adroddiad.]

Arweiniodd y Pennaeth Gwasanaeth y Cabinet drwy'r adroddiad a'r atodiadau gan bwysleisio pwysigrwydd y ddogfen a gwaith caled y rhai oedd yn rhan o'r tîm Asedau.

Ymatebodd yr Aelod Arweiniol a'r Pennaeth Gwasanaeth i gwestiynau fel a ganlyn –

- cytunwyd i gynnwys cyfeiriad at y buddsoddiad ysgol newydd yn Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd ym mharagraff 7.1.1 y Strategaeth newydd cyn ei gyhoeddi
- cyllid a gallu fyddai'r prif gyfyngiadau wrth gyflawni'r Strategaeth newydd
- roedd y Strategaeth yn nodi'r canlyniadau a fwriadwyd a byddai cydweithio o fewn y Cyngor a chyda partneriaid i ddenu mewnfuddsoddiad a gwneud y

mwyaf o gyfleoedd; roedd y Bloc Toiledau yng Nghorwen yn cael ei ddefnyddio fel enghraifft i ddangos manteision dull o'r fath

- cyfeiriwyd at gymhlethdodau cyllideb llywodraeth leol a chadarnhawyd na fyddai'n bosibl gwerthu asedau i dalu am gostau o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, gellid defnyddio unrhyw incwm a gafwyd wrth werthu asedau, megis Caledfryn yn Ninbych, i ariannu cynlluniau cyfalaf eraill yn y Cyngor, ac roedd hyn yn cael ei ystyried
- roedd adnoddau ac asedau, yn cynnwys gwaredu, yn cael eu hystyried yn rheolaidd gan y Grŵp Rheoli Asedau, oedd ar agor i bob Cynghorydd fynychu.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn –

- (a) *cymeradwyo mabwysiadu Strategaeth Rheoli Asedau 2024 – 2029 (Atodiad 1 yr adroddiad), a*
- (b) *cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

7 PREMIWM TRETH CYNGOR AR AIL GARTREFI / CARTREFI GWAG HIRDYMOR

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis yr adroddiad yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo polisi'r Cyngor i godi Premiwm Treth Cyngor ar Ail Gartrefi / Cartrefi Gwag Hirdymor ar gyfer 1 Ebrill 2025 a chymeradwyo'r amserlen arfaethedig i adolygu'r polisi ar gyfer 2026/27.

Atgoffwyd y Cabinet am y polisi codi tâl a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ym mis Medi 2023, oedd yn golygu, o 1 Ebrill 2025 y byddai 150% yn cael ei godi ar ben y Dreth Cyngor safonol am y ddau fath o eiddo oedd wedi bod yn wag am lai na 5 mlynedd a 50% ychwanegol am eiddo oedd wedi bod yn wag a heb eu dodrefnu am 5 mlynedd neu fwy. Nid oedd y polisi yn cynnwys 2026/27 ymlaen ac roedd cynlluniau ar gyfer adolygiad i ddeall effaith y polisi cyfredol i lywio penderfyniadau yn y dyfodol wedi cael eu nodi yn yr adroddiad, ynghyd ag amserlenni. Pwysleisiwyd eto mai pwrpas y premiwm yw cynyddu nifer y tai fforddiadwy yn Sir Ddinbych a chynnal a meithrin cymunedau cynaliadwy.

Roedd y Pennaeth Cyllid ac Archwilio, y Prif Reolwr Refeniw, Budd-daliadau a Chontractau a'r Rheolwr Darparu Gwasanaeth - Refeniw a Budd-daliadau yn bresennol.

Roedd y Cabinet yn ystyried bod y cynllun gweithredol a nodwyd yn yr adroddiad yn ddull synhwyrol, â strwythur da i roi cyfle i bob budd-ddeiliad, yn cynnwys y cyhoedd, i ymateb fel rhan o'r broses. Trafododd y Cabinet fanylion yr adroddiad â swyddogion gan ofyn cwestiynau am y mecanweithiau adolygu a phwerau dewisol y Cyngor i hepgor unrhyw breimiwm mewn amgylchiadau penodol. Manylodd y swyddogion ar y fethodoleg adolygu, fyddai'n cynnwys dadansoddi'r cyfoeth o wybodaeth a gafwyd ac effaith y newid a gwersi a ddysgwyd gan awdurdodau lleol eraill, gan gymharu data a pholisi gyda phartneriaid rhanbarthol a chenedlaethol i roi adolygiad cynhwysfawr i arwain y polisi yn y dyfodol. Rhoddodd y swyddogion enghreifftiau hefyd o achosion ble gellid defnyddio pwerau dewisol, a phwysleisiwyd

bod pob achos yn cael ei ystyried ar ei rinweddau ei hun ac y byddai dull ymarferol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi unigolion pan fo'n bosibl. Cadarnhaodd rhai aelodau eu bod wedi gweld drostynt eu hunain pa mor barod oedd swyddogion i ystyried achosion unigol yn ofalus. Nodwyd hefyd bod arweiniad Llywodraeth Cymru yn gofyn am dull ymarferol gan awdurdodau lleol wrth adolygu'r premiwm ac ystyried rhyddhad dewisol a byddai dadansoddi data yn helpu i lywio argymhellion posibl o ran eithriadau i'r premiwm yn y dyfodol. Roedd hi'n bwysig bod digon o amser yn cael ei roi i'r polisi esblygu er mwyn deall yn llawn beth yw'r effeithiau a sicrhau y gellir diwygio'r polisi yn seiliedig ar y data sydd ar gael, a dyna'r rheswm am y dull a gymerwyd yn y Cynllun Gweithredol.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn –

- (a) *nodu a chymeradwyo polisi codi tâl y Cyngor ar gyfer 1 Ebrill 2025 fel y nodir ym mharagraff 4.1 yr adroddiad, a*
- (b) *cymeradwyo'r amserlen arfaethedig a nodir yn yr adroddiad i adolygu'r polisi ar gyfer 2026/27.*

8 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y STRATEGAETH A CHYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG AR GYFER 2025/26 - 2027/28

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis yr adroddiad yn diweddaru'r Cabinet ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, a gofynnodd am i gynigion arbedion cynnar gael eu hystyried ar gyfer pennu cyllideb 2025/26.

Ni fu llawer o newid i'r dogfennau ers y fersiwn blaenorol ac nid oedd unrhyw newid i'r darlun cyffredinol. Fodd bynnag, gallai'r sefyllfa newid yn dilyn Cyllideb Llywodraeth y DU ar 30 Hydref 2024. O ran yr arbedion arfaethedig, roedd canlyniad cadarnhaol wedi bod i'r ffordd y mae'r Cyngor yn ymateb i ddarparu gwasanaethau digartrefedd fyddai hefyd yn creu arbedion sylweddol.

Arweiniodd y Pennaeth Cyllid ac Archwilio'r aelodau drwy'r adroddiad a oedd yn cynnwys –

- y Cynllun Ariannol Tymor Canolig lefel uchel oedd yn cynnwys rhagamcaniadau presennol ar y gyllideb, ynghyd ag ystod o ragdybiaethau i roi amcangyfrif isel, canolig ac uchel pob pwysau ynghyd ag effaith amcangyfrifon o gynnydd i Dreth y Cyngor a chyllid gan Lywodraeth Cymru (Atodiad 2 i'r adroddiad)
- roedd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn crynhoi data hyd at ddechrau mis Hydref yn nodi dull strategol y Cyngor o reoli ei gyllid a maint yr her ariannol (Atodiad 3 i'r adroddiad) ac roedd y prif bwyntiau wedi'u hamlygu yn yr adroddiad eglurhaol a'r newidiadau a wnaed i'r Strategaeth wedi'u hamlygu mewn melyn, a
- chynnydd ar gynigion arbed mewn gwasanaethau oedd yn cael eu datblygu fel rhan o'r gwaith pennu cyllideb ar gyfer 2025/26 (Atodiad 2 i'r adroddiad).

Roedd llawer o'r gwaith yn canolbwyntio ar bennu'r gyllideb ar gyfer 2025/26 a rhagwelwyd y byddai costau darparu gwasanaethau'n codi £18 miliwn. Roedd

cynnydd mewn cyflogau staff yn parhau'n bwysau ynghyd â phwysau sylweddol ar wasanaethau yn ymwneud yn bennaf â gwasanaethau oedd yn cael eu harwain gan alw, oedd yn sylweddol, a thu allan i reolaeth y Cyngor i raddau helaeth. Roedd rhagdybiaethau gweithredol wedi'u gwneud am setliad ariannol Llywodraeth Cymru ar ostyngiadau ychydig yn negyddol a Threth y Cyngor ar tua 9%, oedd yn gadael bwlch a ragwelir yn y gyllideb o £12 miliwn, fyddai'n gofyn am arbedion sylweddol ar hyd a lled yr awdurdod er mwyn mantoli'r gyllideb. Roedd cynigion arbedion cynnar wedi cael eu dwyn ymlaen ac roedd llawer o waith yn dal ar y gweill i fodloni'r arbedion gofynnol. Roedd y rhagolygon ar gyfer y dyfodol yn rhagweld bwlch o £15 miliwn yn 2026/27 a £14 miliwn yn 2027/28.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Pennaeth Gwasanaeth am y trosolwg manwl ac roedd y dogfennau eisoes wedi cael eu trafod yn fanwl gan y Cabinet. Nodwyd bod Gweithdy ar Gyllideb y Cyngor wedi cael ei gynnal yn ddiweddar i bob aelod.

Roedd y prif feysydd trafod yn canolbwyntio ar y canlynol –

- rhoddwyd diweddariad ar y system ariannol newydd a gyflwynwyd yn ddiweddar oedd yn disodli nifer o systemau gwahanol ac roedd yr elfen modiwl rhagolygon ariannol ar waith ers mis Medi. Roedd y system newydd yn newid mawr i ffordd y tîm o weithio a darparu gwybodaeth ariannol; byddai'r system yn parhau i gael ei mireinio ac roedd hyfforddiant a datblygu ar y gweill
- cyfeiriodd y Cynghorydd Bobby Feeley at osod Treth y Cyngor ym mis Chwefror ac y byddai preswylwyr yn disgwyl iawndal oherwydd y tarfu a achoswyd wrth gyflwyno'r system gwastraff newydd. Eglurodd y swyddogion fod Treth y Cyngor yn ariannu'r gwasanaethau cyffredinol a ddarperir gan y Cyngor ac nad oedd yn gysylltiedig â maes gwasanaeth penodol; roedd yn dreth yr oedd gan y Cyngor rwymedigaeth gyfreithiol i'w gosod ac roedd gan y rhai sy'n cael gorchymyn Treth y Cyngor rwymedigaeth i'w dalu. Nid rhwymedigaeth gytundebol ydoedd y gellid rhoi iawndal i unigolion amdano. Cytunodd y swyddogion ailddosbarthu'r briff i aelodau oedd yn egluro'r sefyllfa o ran Treth y Cyngor ac a fyddai'n helpu'r aelodau ateb cwestiynau gan breswylwyr
- er yr eglurwyd nad oedd cyswllt rhwng y problemau wrth gyflwyno'r gwasanaeth gwastraff newydd â Threth y Cyngor, cyfeiriwyd at y mater ar wahân, sef y gwasanaeth gwastraff gwyrdd, oedd yn wasanaeth yr oedd cwsmeriaid yn tanysgrifio iddo a thalu amdano, a lle'r oedd tarfu wedi bod ar gasgliadau rhai cwsmeriaid. Roedd y mater hwnnw'n cael ei ystyried ar hyn o bryd, a byddai mwy o wybodaeth yn cael ei ddsbarthu i aelodau ar sefyllfa'r Cyngor yn dilyn hynny
- roedd yr amcangyfrifon o ddyfarniadau cyflog ar gyfer 2023/24 wedi bod yn ddigonol ar gyfer y gyllideb ac roeddent wedi creu arbediad i ariannu gorwariant mewn gwasanaethau. Darparwyd y sefyllfa ddiweddaraf ar ddyfarniad cyflog 2024/25 i staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu a daethpwyd i gytundeb ar y dyfarniad i athrawon ond roedd trafodaethau'n parhau o ran staff nad ydynt yn addysgu. Os na fyddai'r amcangyfrif dyfarniad cyflog ar gyfer staff nad ydynt yn addysgu yn ddigonol, byddai'n rhaid defnyddio cronfeydd wrth gefn os na fydd cyllid arall ar gael, fyddai hefyd yn effeithio ar y gyllideb sylfaenol yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn –

- (a) *cymeradwyo'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig sydd yn Atodiadau 1 a 3 yr adroddiad;*
- (b) *nodir cynigion arbedion cynnar ar gyfer pennu cyllideb 2025/26 fel y nodir yn Atodiad 2, a*
- (c) *nodir gwaith parhaus i bennu cyllideb gytbwys yn 2025/26.*

9 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis yr adroddiad misol a oedd yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

Rhodddwyd crynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn –

- y gyllideb refeniw net ar gyfer 2024/25 oedd £271.021 miliwn (£250.793 miliwn yn 2023/24)
- rhagwelwyd y byddai tanwariant o £400,000 mewn cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol
- y risgiau a'r rhagdybiaethau presennol yn ymwneud â chyllidebau corfforaethol a meysydd gwasanaeth
- arbedion effeithlonrwydd gan wasanaethau ar gyfer cyllideb 2024/25 (£10.384 miliwn) a chynnydd ar gyflawni arbedion a gymeradwywyd oedd yn parhau i gael eu holrhain/monitro
- y wybodaeth ddiweddaraf am Ysgolion, y Cyfrif Refeniw Tai a Rheoli'r Trysorlys.

Arweiniodd y Pennaeth Cyllid ac Archwilio yr Aelodau drwy'r adroddiad. Rhagwelir tanwariant o £400,000 (ac eithrio ysgolion) o'i gymharu â gorwariant o £240,000 y mis diwethaf oherwydd diwygio'r model ar gyfer darparu gwasanaethau digartrefedd a lleihau gwariant ar lety brys. Roedd gwasanaethau'n gyffredinol yn parhau i orwario ac roedd meysydd o orwariant gan wasanaethau'n cael eu mantoli gan danwariant ar gyllidebau corfforaethol yn cynnwys tâl ac ynni. Roedd meysydd risg uchel yn cynnwys lleoliadau preswyl mewn Gwasanaethau Plant, gofal a gomisiynir mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Chludiant Ysgolion. Roedd yr offeryn olrhain arbedion wedi cael ei gynnwys yn yr adroddiad yn ogystal â throsolwg o'r cynnydd. Roedd 82% o'r arbedion a ragwelwyd wedi cael eu cyflawni ar brosiectau mawr a 90% o arbedion heb fod yn strategol. Rhagwelir diffyg cyffredinol o £2.7 miliwn i ysgolion ac roedd gwaith ar y gweill gyda'r ysgolion i geisio lleihau faint o falansau sy'n cael eu defnyddio.

Nododd y Cabinet, yn ychwanegol i'w adroddiad misol rheolaidd, roedd cyfarfod cyllideb wedi cael ei gynnal yn ddiweddar i bob aelod a byddai trafodaeth gynnar am y gyllideb yng nghyfarfod nesaf y Cyngor ar 12 Tachwedd. Roedd y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid ac Archwilio hefyd wedi gwneud trefniadau i gyfarfod â'r holl grwpiau gwleidyddol ar wahân i drafod y gyllideb ac roedd yr Arweinydd wedi pwysleisio mor bwysig oedd i gymaint o aelodau â phosibl fod yn y trafodaethau hynny am y gyllideb er mwyn rhoi eu mewnbwn i'r broses. Roedd y Cynghorydd Julie Matthews hefyd yn awyddus i sicrhau bod ymgysylltu priodol yn digwydd â'r cyhoedd ar y broses o bennu'r gyllideb. Cyfeiriodd y Pennaeth Cyllid ac

Archwilio at gymhlethdodau'r gyllideb llywodraeth leol a'r gwaith gyda'r Grŵp Cyfathrebu ar y Gyllideb ynghyd â chynlluniau i gyfathrebu â'r cyhoedd o ran codi ymwybyddiaeth am gyllid y Cyngor a'r gwasanaethau a ddarperir drwy ffyrdd megis y cyfryngau cymdeithasol, fideos ar wefan y Cyngor a ffeithluniau ynghyd ag ymgynghori ar gynigion ar y gyllideb yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2024/25 a'r cynnydd ar y strategaeth y cytunwyd arni.

10 **SYSTEM RHEOLI GWYBODAETH GOFAL CYMDEITHASOL NEWYDD - DYFARNU CONTRACT**

Cyflwynodd y Cynghorydd Elen Heaton yr adroddiad ar y cyd â'r Cynghorwyr Julie Matthews a Diane King yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo dyfarnu'r contract a chyfranogiad parhaus yn y rhaglen genedlaethol cysylltu gofal. Roedd yr adroddiad yn cynnwys atodiadau cyfrinachol gyda gwybodaeth ariannol a gofynnwyd i'r Cabinet fynd i sesiwn breifat os oeddent eisiau trafod y manylion ariannol.

Roedd y Cabinet wedi cymeradwyo cyfranogiad Sir Ddinbych mewn proses gaffael ar gyfer system rheoli gwybodaeth gofal cymdeithasol newydd yn seiliedig ar yr Achos Busnes a gyflwynwyd yn ei gyfarfod ar 30 Gorffennaf 2024. Rhoddwyd manylion y broses dendro fel rhan o glwstwr o chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru ynghyd â'r broses werthuso leol a sesiynau cymedroli. Bydd gan contractau a ddyfernir gyfnod cychwynnol o 7 mlynedd, gyda'r opsiwn i'w hystyng yn fesul 2 flynedd hyd at uchafswm o 21 mlynedd. Roedd crynodeb o gostau'r tendr a chopi drafft o'r dyfarniad wedi cael eu cynnwys yn yr atodiadau cyfrinachol.

Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol a Phartneriaid Busnes TGCh yn bresennol ar gyfer yr eitem hon. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y broses drylwyr a gynhaliwyd yn fewnol, gyda phartneriaid rhanbarthol a'r broses gaffael genedlaethol, gydag ymgysylltiad gan gydweithwyr TG arbenigol a'r gwasanaeth fyddai'n defnyddio'r system newydd os bydd yn cael ei chaffael. Pwysleisiodd y Cynghorydd Julie Matthews mor bwysig oedd cael system newydd a thynnodd sylw at y broses gaffael drylwyr a gynhaliwyd a'r gwasanaeth gwell fyddai preswylwyr yn ei gael o ganlyniad i'r system newydd.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn –

- (a) *cymeradwyo'r adroddiad Dyfarnu Contract sydd ynghlwm yn Atodiad 2 yr adroddiad, a*
- (b) *parhau i gefnogi cyfranogiad Sir Ddinbych yn y rhaglen genedlaethol Cysylltu Gofal.*

11 **RHAGLEN WAITH Y CABINET**

Cyflwynwyd rhaglen waith y Cabinet i'w hystyried.

Nododd y Cabinet na fydd yr eitem ar Drefniadau Llywodraethu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn barod mewn pryd i'w chyflwyno i'r Cabinet ym mis Tachwedd.

PENDERFYNWYD *nodi rhaglen waith y Cabinet.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.30am.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod	19 Tachwedd 2024
Aelod / Swyddog Arweiniol	Y Cyngorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol Helen Vaughan-Evans, Pennaeth Gwasanaeth Cefnogaeth Gorfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau
Awdur yr adroddiad	Emma Horan, Swyddog Cynllunio a Pherfformiad
Teitl	Diweddariad ar Berfformiad y Cynllun Corfforaethol: Ebrill - Medi 2024

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Perfformiad y Cyngor yn erbyn ei [Gynllun Corfforaethol](#) rhwng mis Ebrill a mis Medi, gan gynnwys amcanion Cydraddoldeb Strategol a'r saith maes llywodraethu (cynllunio corfforaethol; cynllunio ariannol, rheoli perfformiad; rheoli risg; cynllunio'r gweithlu; asedau; a chaffael).

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

